UK Statistics Authority

Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Caerdydd
Casnewydd
NP10 8XG

Government Buildings
Cardiff Road
Newport
NP10 8XG

E-bost: national.statistician@statistics.gov.uk

www.statisticsauthority.gov.uk

**Yr Athro Syr Ian Diamond** | Ystadegydd Gwladol

Peredur Owen Griffiths AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Ebrill 2025

Annwyl Mr Griffiths,

Roeddwn am anfon llythyr pellach yn dilyn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 21 Hydref mewn perthynas â data ar dwf chwarterol yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) y penderfyniad i oedi cyn cyhoeddi ein GDP Rhanbarthol Chwarterol (QRGDP) oherwydd pryderon a godwyd gan ddefnyddwyr mewn perthynas ag ansawdd ac anwadalrwydd yr amcangyfrifon. Yn y cyfamser, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, rydym wedi parhau i gynhyrchu a darparu Dangosyddion Tymor-byr Cymru (WSTI) er mwyn darparu data chwarterol ar gyfer Cymru.

Mae'r SYG wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Economaidd annibynnol i adolygu'r dulliau ar gyfer QRGDP. Mae adroddiad y Ganolfan bellach wedi'i gyhoeddi[1], ac mae'n cynnwys sawl argymhelliad tymor byr a thymor hwy i wella'r ystadegau allweddol hyn.

Gallaf gadarnhau i'r Pwyllgor bod y SYG yn bwriadu gweithredu ar nifer o'r argymhellion hyn ar unwaith, a fydd yn ein galluogi i ailgyflwyno amcangyfrifon chwarterol o GDP rhanbarthol mewn ffordd well. Byddwn yn ailddechrau'r gwaith o gyhoeddi'r ffigurau hyn ar gyfer Cymru yn nes ymlaen eleni. Ceir gwybodaeth bellach am ein cynlluniau ar gyfer ailgyflwyno'r amcangyfrifon mewn blog[2].

Yn gywir,

**Yr Athro Syr Ian Diamond**

---

[1] Regional GDP: Methods review - Y Ganolfan Ragoriaeth Economaidd
[2] Improved quarterly regional GDP figures to bring fresh insights | National Statistical